# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 19 Ionawr 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

# (308)v6

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## Cwestiwn Brys (10 munud)

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am honiadau gan bennaeth y Coleg Brehinol Meddygaeth Frys yng Nghymru nad oedd gan yr un adran damweiniau ac achosion brys yng Nghymru ddigon o feddygon ymgynghorol i fodloni isafswm lefelau staffio y Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys y llynedd? EAQ(4)0676(HSS)

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth:: Tata Steel

(45 munud)

**4 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Iechyd: Y Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys**

(30 munud)

**5 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg: Prentisiaethau**

(30 munud)

**6 Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Y wybodaeth ddiweddaraf am yr agenda Diwygio Gwasanaethau Datganoledig**

(30 munud)

**7 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Argymhellion a dyfodol y Cynllun Bathodynnau Glas yng Nghymru - Tynnwyd yn ôl - i'w gyflwyno fel Datganiad Ysgrifenedig**

**8 Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2016**

(15 munud)

**NDM5918 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2016 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Rhagfyr 2015.

**Dogfennau Ategol**

Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a

Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2016

Memorandwm Esboniadol *(Saesneg yn unig)*

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol – *Dim pwyntiau adrodd*

## 9 Dadl ar yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2014 – 2015

(60 munud)

**NDM5919 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2014-2015.

'Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2014-15'

**Cyflwynwyd y Gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau nad yw toriadau i'r gyllideb cymunedau a threchu tlodi yn cael effaith andwyol ar gynnydd o ran creu cymunedau mwy cydlynol a chynhwysol yng Nghymru.

**Gwelliant 2 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi â phryder y toriad arfaethedig o 68 y cant mewn cyllid craidd i Anabledd Cymru.

**Gwelliant 3 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod cymhelliad hiliol i ychydig dros dri chwarter o'r troseddau casineb a adroddwyd i heddluoedd Cymru yn 2012-2013.

**Gwelliant 4 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith mai dim ond 13 y cant o blant sy'n Sipsiwn/Sipsiwn Roma a 17 y cant o blant sy'n derbyn gofal a gyflawnodd TGAU graddau A* i C, mewn mathemateg a naill ai Saesneg neu Gymraeg fel iaith gyntaf yn 2014.

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Gweinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am y cynnydd a wnaed o ran gwella gwasanaethau dysfforia rhywedd yng Nghymru, ac yn galw am astudiaeth dichonolrwydd annibynnol i sefydlu clinig hunaniaeth rhywedd yng Nghymru.

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i symud at recriwtio dienw yn y sector cyhoeddus pan fo hynny'n bosibl fel bod pobl yn cael eu barnu ar eu gallu gwirioneddol i wneud swydd.

## 10 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 20 Ionawr 2016